


BYDD WYCH. AILGYLCHA.



Pecyn Adnoddau Partneriaid Wythnos Ailgylchu 2026:

Yn ôl i'r gwaith. Yn ôl at ailgylchu.

Yn y pecyn adnoddau hwn fe welwch **ddeunyddiau ymgyrchu parod, am ddim**, i'ch helpu i ysbrydoli cydweithwyr, gwneud ailgylchu'n rhan o'r diwrnod gwaith, a dangos pam mae pob potel, can, pot iogwrt a chroen banana sy'n cael eu hailgylchu yn y gwaith yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

Wythnos Ailgylchu 2026

Pecyn Adnoddau Partneriaid ar gyfer gweithleoedd yng Nghymru.

CYNNWYS

Ynglŷnŷn â'r ymgyrch	3
Ein dull: Gwneud i ailgylchu deimlo'n werth chweil	4
Asedau creadigol a negeseuon yr ymgyrch	5
Sut gall partneriaid gymryd rhan	6
Asedau ac adnoddau'r ymgyrch	7
Cysylltiadau a chefnogaeth	14



Ynglŷn â'r ymgyrch

Yn ôl i'r gwaith. Yn ôl at arferion. Yn ôl at ailgylchu.

Ar ôl haf o wyliau, dyddiau allan ac anturiaethau, mae'r hydref yn dod â ni'n ôl at ein harferion beunyddiol. Ac i lawer ohonom, mae hynny'n golygu dod yn ôl at ein harferion gwaith.

Mae Cymru eisoes yn un o wledydd gorau'r byd am ailgylchu. Mae'r Ddeddf Ailgylchu yn y Gweithle wedi helpu i sicrhau bod cyfleusterau ailgylchu ar gael mewn gweithleoedd a sefydliadau ledled Cymru, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ailgylchu y tu hwnt i'r cartref.

Fodd bynnag, gwyddom fod ymddygiadau ailgylchu hefyd yn llithro mewn lleoliadau oddi cartref. Dyna pam, yr Wythnos Ailgylchu hon, mae **Bydd Wych. Ailgylcha.** yn dod â'r ymgyrch i weithleoedd ledled Cymru, i ysbrydoli staff i ailgylchu'n gyson ac yn hyderus.

Gan adeiladu ar ein hymgyrch oddi cartref yn ystod yr haf, a oedd yn annog pobl i ailgylchu lle bynnag y bônt, rydym yn dangos sut y gall ailgylchu fod yn rhan o'r diwrnod gwaith – p'un a ydych chi'n teithio i'r gwaith, yn cael cinio, yn gwneud y te, neu'n gweithio o gartref.

Yn bwysicaf oll, rydyn ni'n dangos pam ei bod hi'n werth gwneud. O wastraff bwyd yn cael ei droi'n ynni adnewyddadwy, i ganiau a photeli yn cael eu trawsnewid yn gynhyrchion newydd, mae pob eitem sy'n cael ei hailgylchu yn cychwyn ar daith newydd.

Pam cymryd rhan?

- ✓ **Helpu Cymru i fynd o Rif 2** yn y byd am ailgylchu a chyrraedd **Rhif 1**
- ✓ **Cefnogi nodau cynaliadwyedd** ac ymrwymadau amgylcheddol **eich gweithle**
- ✓ **Gwella cyfraddau ailgylchu** a helpu i leihau halogiad
- ✓ **Cael ailgylchu yn ôl i'r drefn arferol** ac ysbrydoli cydweithwyr i ailgylchu'n hyderus yn y gwaith
- ✓ **Dangos pam mae ailgylchu yn werth chweil**, gan ddod â thaith ac effaith ailgylchu yn fyw



Ein dull: Gwneud i ailgylchu deimlo'n werth chweil

Mae pobl yng Nghymru yn ailgylchwyr gwyh gartref. Ond gall ymddygiadau ailgylchu ddod yn llai cyson pan fyddwn i oddi cartref, gan gynnwys yn y gwaith.

Gwyddom hefyd fod pobl yn fwy tebygol o ailgylchu pan fyddant yn deall bod yr hyn maen nhw'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.



Felly nid yw'r ymgyrch hon yn ymwneud â dim ond dweud wrth bobl am ailgylchu. Mae'n ymwneud ag egluro pam.

Rydym yn dod â'r daith ailgylchu yn fyw trwy asedau creadigol a negeseuon chwareus a pherthnasol sy'n seiliedig ar rannau cyfarwydd o'r diwrnod gwaith – o wneud rownd o de i gael cinio gyda chydweithwyr.

Mae tri pheth wrth wraidd yr ymgyrch:

01

DANGOS EI FOD YN GWEITHIO



Dod â'r daith ailgylchu yn fyw a dangos beth sy'n digwydd ar ôl i eitem gael ei rhoi yn y bin cywir.

02


DANGOS EI FOD YN BWYSIG



Defnyddio ffeithiau cofiadwy, ystadegau arbed ynni (fel pweru gliniadur neu degell) a straeon go iawn i ddangos y gwahaniaeth y gall ailgylchu ei wneud.

03

EI WNEUD YN RHAN O'R FOMENT



Dangos ailgylchu fel ymddygiad syml, bob dydd sy'n ffitio'n naturiol i fywyd gwaith.


Asedau creadigol a negeseuon yr ymgyrch

Yn ôl i'r gwaith. Yn ôl at arferion. Yn ôl at ailgylchu.

Mae'r ymgyrch yn adeiladu ar wedd a theimlad adnabyddadwy ymgyrch oddi cartref Bydd Wych. Ailgylcha. yn yr haf, gan roi ein cymeriadau eitemau ailgylchadwy mewn sefyllfaoedd cyfarwydd yn y gweithle.

Mae caniau, ffoil, poteli, potiau iogwrt, bagiau te a chrwyn banana yn dod yn rhan o'r diwrnod gwaith, gan ein helpu i ddangos bod gwerth o hyd i eitemau bob dydd ar ôl i ni orffen gyda nhw.

Ategir yr ymgyrch gan negeseuon cadarnhaol, chwareus a llawn anogaeth sy'n dod â'r daith ailgylchu'n fyw, dangos sut y gall deunyddiau wedi'u hailgylchu arbed neu greu ynni, gan ddathlu cynnydd Cymru a'r uchelgais a rannwn i fod yn Rif 1 yn y byd am ailgylchu.



Sut gall partneriaid gymryd rhan

Gwnewch ailgylchu yn rhan o'r diwrnod gwaith

Rydyn ni wedi ei gwneud hi'n hawdd cymryd rhan, p'un a ydych chi am rannu cynnwys yr ymgyrch gyda'ch timau, ynteu ddod â'r ymgyrch yn fyw ar draws eich gweithle.


Bydd partneriaid yn cael mynediad at **gyfres am ddim o ddeunyddiau ymgyrchu parod i'w defnyddio**, a gallwch eu defnyddio ar draws eich sianeli mewnol.

Delfrydol ar gyfer mewnwydi, cylchlythyrau staff, negeseuon Teams / gweithle, sianeli cymdeithasol mewnol, sgriniau digidol a mannau ffisegol.



FFILM ARWR

Dilynwch y daith ailgylchu o fin yn y gweithle i'r hyn sy'n digwydd nesaf ...



ANIMEIDDIADAU A CHARWSÉL AR GYFER Y GWEITHLE

Animeiddiadau dan arweiniad cymeriadau sy'n dod ag eitemau cyfarwydd yn y gweithle yn.



FIDEOS UGC YN Y GWEITHLE

Fideos hwyliog, perthnasol, arddull UGC, yn dangos ailgylchu fel rhan o fywyd gwaith bob dydd – o brydau amser cinio i'r rownd de yn y swyddfa.



POSTERI A SGRINIAU DIGIDOL

Asedau creadigol trawiadol wedi'u cynllunio ar gyfer mannau cymunedol, ffreuturau, ceginau, hysbysfyddau a sgriniau digidol.



TEMPLEDI ERTHYGL Y GELLIR EI DEILWRA

Copi parod i'w ddefnyddio ar eich mewnwyd, gwefan, cylchlythyr staff neu gyfathrebu mewnol.



DEUNYDDIAU AILGYLCHU YN Y GWEITHLE

Arwyddion ailgylchu ymarferol ar gyfer y gweithle ac eiconau ffrwd deunyddiau i helpu cydweithwyr i adnabod y bin cywir.

Asedau ac adnoddau'r ymgyrch

Ffilm arwr

Dod â'r daith ailgylchu yn fyw

Wedi'i gynllunio i roi hwb i hyder pobl bod ailgylchu wir yn gwneud gwahaniaeth, mae ein ffilm arwr yn dilyn taith ailgylchu ar ôl iddo adael y bin – o'i gasglu a'i sortio i ailbroseswyr arbenigol.

Gan gynnwys ein cymeriadau eitemau ailgylchadwy Gwych, mae'n ffordd ddeniadol a chofiadwy o annog pobl i ddewis y bin cywir lle bynnag y bônt.

Sut i'w ddefnyddio:

Gallwch rannu'r ffilm gyda staff, cwsmeriaid, preswylwyr neu ymwelwyr drwy gydol cyfnod yr ymgyrch.

- ✓ Ar sianeli mewnol fel mewnwydi, cylchlythyrau staff, sgriniau digidol a chyfathrebiadau yn y gweithle
- ✓ Ar sianeli allanol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a chylchlythyrau partneriaid
- ✓ I ategu gweithgaredd Wythnos Ailgylchu a chyfathrebu ehangach ynghylch ailgylchu

Rydym yn argymhell dolen uniongyrchol i'r ffilm ar YouTube pan fi modd i gael y nifer uchaf o wylwyr a gwneud rhannu ar draws sianeli'n hawdd.

Mae'r ffilm arwr cyfan a darnau byrrach ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ar gael i'w lawrlwytho yma:

- 16:9 (1920 x 1080)
- 9:16 (1080 x 1920)
- 4x5 (1080 x 1350)

Download



Asedau ac adnoddau'r ymgyrch

Animeiddiadau a charwsél i'r cyfryngau cymdeithasol

Rydym wedi creu cyfres o animeiddiadau chwareus, sy'n canolbwyntio ar y gweithle, a charwsél, oll wedi'u cynllunio i wneud ailgylchu yn rhan o'r diwrnod gwaith bob dydd.

Gan gynnwys eiliadau cyfarwydd yn y gweithle – o bweru gliniaduron a chyflwyniadau mawr i rownd de'r swyddfa – maen nhw'n dod ag ailgylchu'n fyw trwy ffeithiau syml, perthnasol am yr hyn sy'n digwydd nesaf.

Perffaith ar gyfer rhannu ar sianeli cymdeithasol mewnol, mewnrwydi a chyfathrebiadau staff. Gall partneriaid hefyd rannu'r cynnwys yn allanol i helpu i rannu'r neges.

Mae'r animeiddiadau ar gael ar dair thema: plastig, metel a gwastraff bwyd, ochr yn ochr â charwsél sy'n cymryd cipolwg ar daith ailgylchu yng Nghymru.

Cofiwch dagio **#ByddWychAilgylcha** yn eich holl weithgarwch ar-lein.

Ar gael i'w lawrlwytho fel:

- 9:16 (1080 x 1920)
- 4x5 (1080 x 1350)

Download



Asedau ac adnoddau'r ymgyrch

Cynnwys arddull UGC

Rydyn ni wedi creu amrywiaeth o fideos arddull UGC ar gyfer yr ymgyrch, gan gofnodi eiliadau perthnasol o fywyd gwaith bob dydd – o'r rownd de yn y swyddfa i fargeinion prydau bwyd amser cinio.

- 1. Antur fawr y botel:** Un botel fach. Un daith epig iawn. Dilynwch hi o fwrdd cinio'r gweithle i ailbroseu a darganfyddwch pam nad yw ailgylchu'n gorffen yn y bin.
- 2. Rownd de Wych y swyddfa:** Pwy sydd am ddisgled? Dilynwch rownd de'r swyddfa a darganfyddwch sut y gall y weithred syml o ailgylchu bagiau te helpu i bweru'r ddisgled nesaf.
- 3. Bargen o Bryd:** Cinio wedi'i sortio. Yr ailgylchu nesaf. Dilynwch glasur bywyd swyddfa, y fargen o bryd o'r siop i'r bwrdd cinio i'r bin cywir, gydag ambell ffaith ddiddorol ar hyd y ffordd.

Download



Asedau ac adnoddau'r ymgyrch

Calendr cyfryngau cymdeithasol

Rydyn ni wedi creu calendr cyfryngau cymdeithasol parod i'w ddefnyddio i'ch helpu chi i gadw sylw ar ailgylchu drwy gydol Wythnos Ailgylchu.

P'un a ydych chi'n siarad â'ch staff ar eich sianeli mewnol neu gynulleidfaoedd allanol ar y cyfryngau cymdeithasol, mae yna rywbeth yn barod i'w rannu. Dewiswch y fersiwn sy'n gweithio i chi.


Sianeli mewnol: Wedi'i gynllunio ar gyfer gweithleoedd i'w rhannu gyda staff trwy sianeli cymdeithasol mewnol, grwpiau staff, mewnwydi a chyfathrebiadau eraill y gweithle.

Sianeli allanol: Yn ddelfrydol ar gyfer partneriaid fel awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sydd eisiau annog dilynwyr a phreswylwyr i ailgylchu lle bynnag y bônt.

Mae pob post yn cynnwys copi ac asedau awgrymedig, ond mae croeso i chi eu defnyddio fel man cychwyn a rhoi eich stamp eich hun arnynt.

- ✓ Dewiswch y cynnwys sydd fwyaf perthnasol i'ch cynulleidfa ac ychwanegwch eich gweithle eich hun neu agwedd leol pan fo hynny'n helpu.
- ✓ Tagiwch @WalesRecycles, rhowch ddolen i'r wefan neu defnyddiwch hashnod yr ymgyrch #ByddWychAilgylcha pan fo'n briodol.
- ✓ Cadwch y sgwrs i fynd y tu hwnt i Wythnos Ailgylchu. Mae'r negeseuon hyn yn gweithio drwy gydol y flwyddyn.

Download



Asedau ac adnoddau'r ymgyrch

Erthygl gweithleoedd

Rhowch gyfle i'ch ailgylchu gael gyrfa ar y brig

Erthygl sy'n barod i'w defnyddio wedi'i chynllunio i helpu staff i weld ailgylchu yn y gweithle mewn ffordd ffres a deall y gwahaniaeth gwirioneddol y gall eu hailgylchu bob dydd ei wneud, ynghyd â delwedd y gellir ei defnyddio ochr yn ochr â'r erthygl.

Gyda thema gweithle chwareus, mae'r erthygl yn dod ag ailgylchu yn fyw trwy eitemau cyfarwydd. Mae hefyd yn cyflwyno'r Ymgyrch Wych i helpu Cymru fynd o Rif 2 yn y byd am ailgylchu a chyrraedd Rhif 1.

Gellir rhannu'r erthygl gyda staff drwy:

- Mewnwydi staff
- Cylchlythyrau mewnol
- E-byst staff
- Blogiau'r gweithle
- Apiau staff a sianeli cyfathrebu mewnol

Copiwch a gludwch yr erthygl, ychwanegwch enw eich sefydliad, a chynnwys y ddolen i Cymru yn Ailgylchu.

Tip gwyh: Defnyddiwch yr erthygl ynghyd ag animeiddiadau gweithle'r ymgyrch, fideos UGC neu arwyddion i gadw'r neges yn weladwy drwy gydol Wythnos Ailgylchu.

Download



Asedau ac adnoddau'r ymgyrch

Posterï a sgriniau digidol

Rydym hefyd wedi creu amrywiaeth o bosterï a llunwaith sgriniau digidol sy'n barod i'w hargraffu, wedi'u cynllunio i annog ymddygiadau ailgylchu gwell yn y fan a'r lle.

Ar gael mewn tri dyluniad, mae'r asedau'n cynnwys cymeriadau a negeseuon ein hymgyrch i wneud i ddewis y bin cywir deimlo'n syml, yn gadarnhaol ac yn **WYCH**.

Gellir arddangos yr asedau mewn mannau cymunedol fel ffreuturau, ceginau, hysbysfyddau, ger biniau ailgylchu, ar ddrysau toiledau ac ar sgriniau digidol.

Tip gwyh: Peidiwch â'u rhoi i'r neilltu pan fydd Wythnos Ailgylchu drosodd. Gellir eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn i gadw sylw ar ailgylchu a helpu eich staff i ddod yn ailgylchwyr o'r radd flaenaf. Dewch inni Gael Cymru i Rif 1!

Darperir ffeiliau mewn fformatau graddadwy sy'n addas ar gyfer argraffu A0, A1, A2, A3 ac A4, yn dibynnu ar y lle sydd gennych ar gael a'ch gofynion penodol chi.

Download



Asedau ac adnoddau'r ymgyrch

Ailgylchu yn y gweithle: Arwyddion ac eiconau

Ers mis Ebrill 2024, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob gweithle, yn cynnwys cyrchfannau ymwelwyr ledled Cymru, wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy yn yr un modd ag y mae'r rhan fwyaf o gartrefi eisoes yn ei wneud.

I gefnogi'r newid hwn, mae gan WRAP Cymru **gyfres o adnoddau** i helpu staff ac ymwelwyr ddeall beth sy'n ofynnol a sut i ailgylchu'n gywir.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- ✓ Pecyn adnoddau cyfathrebu
- ✓ Canllawiau clir sy'n benodol i'r sector ar sut i weithredu ar y gofynion
- ✓ Poster ar gyfer amrywiaeth o ffrydiau deunyddiau
- ✓ Eiconau ffrydiau deunyddiau – ar gyfer cynwysyddion ac arwyddion

**GWNEWCH AILGYLCHU'N
HAWDD I'W WELD, AC YN
HAWDD I'W WNEUD YN IAWN**



Defnyddiwch yr arwyddion clir a chyson hyn ar eich biniau lle bynnag y bydd ailgylchu'n digwydd yn eich gweithle i gydymffurfio'n llwyr â'r rheoliadau.

Maent wedi'u cynllunio i helpu pobl adnabod y bin cywir yn gyflym ac ailgylchu'n gywir, drwy gydol y flwyddyn.



BYDD WYCH. AILGYLCHA.



Gyda'n gilydd, gallwn wneud i'r Wythnos Ailgylchu hwn gyfrif.

Trwy helpu pobl i ailgylchu ble bynnag y maent yng Nghymru, rydym yn cymryd cam arall tuag at y nod rydym yn ei rannu o fod y genedl ailgylchu orau yn y byd. Gadewch i ni wneud hynny'n digwydd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag
Angela Spiteri at: WalesRecycles@wrap.ngo

 **Cymru yn ailgylchu**
Wales recycles

 **WRAP**
CYMRU

 Gweithredu ar
Hinsawdd Cymru
Climate
Action Wales